


# GALWAD

# ARLOESI AR GYFER EIN DYFODOL

GAN DDEFNYDDIO YSBRYDOLIAETH  
GAN DDYFEISWYR IFANC, MAE'R  
GWEITHGAREDD HWN YN HERIO  
DISGYBLION I DDOD YN DDATRYSWYR  
PROBLEMAU'R DYFODOL



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy

Credyd: The Ocean Cleanup

# Gwybodaeth Gefndir

---

Mae heriau'r byd mawr yn gofyn am feddwl mawr ac atebion mawr. Nid oes angen i chi fod yn oedolyn i ddod o hyd i'r atebion, a dweud y gwir yn aml iawn, pobl ifanc sydd wedi arwain y ffordd i wneud newid mawr. Mae'n debyg ein bod ni i gyd yn gyfarwydd â Greta Thunberg a sut mae hi wedi arwain pobl ifanc ein byd i wybod bod ganddyn nhw'r pŵer i sefyll dros yr hyn maen nhw'n ei gredu sy'n bwysig a gwneud gwahaniaeth MAWR.

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio dau entrepreneur ifanc o'r enw Boyan Slat a William Kamkwamba fel ysbrydoliaeth.

Pan oedd [Boyan Slat](#) yn 16 oed dysgodd am fater enfawr plastig yn ein cefnforoedd a'r effaith yr oedd yn ei chael ar fywyd gwyllt. Gofynnodd Boyan pam nad oedd unrhyw un yn gwneud unrhyw beth i geisio'i glirio a'r ateb a roddwyd oedd ei bod yn broblem rhy fawr ac amhosib mynd i'r afael â hi.

Yn ffodus, ni chafodd Boyan ei rwystro mor hawdd â hynny ac, yn 18 oed, cynlluniodd system ar gyfer defnyddio cerhyntau cefnforol i gasglu'r plastig arnofiol yn Ardal Sbwriel Fawr y Môr Tawel. Yna aeth ymlaen i sefydlu Ocean Cleanup, sefydliad dielw sydd wedi ymgymryd â her y gwaith glanhau mwyaf erioed.



---

Mae mwy na 5 triliwn o ddarnau o blastig yn arnofio yn y cefnfor. Byddai hwn yn ymestyn i'r lleud ac yn ôl ddwywaith pe bai'n cael ei bentyrru ar ben ei gilydd!



---

Mae Eco-Sgolion yn helpu i gefnogi pobl ifanc i weithredu ar faterion amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae'n rhedeg mewn dros 59,000 o ysgolion mewn 74 o wledydd ledled y Byd!



---

Mae'r DU yn cynhyrchu bron i 30% o'i thrydan o ynni gwynt a solar.

Darllenwch ragor am [Ocean Cleanup](#) a'u dyluniadau arloesol (fel yr un yn y llun uchod) ar gyfer glanhau'r cefnforoedd a rhyng-gipio gwastraff o'r 1000 o afonydd sy'n llygru fwyaf yn y byd.

Daeth [William Kamkwamba](#), a elwir hefyd yn The Boy Who Harnessed the Wind, o gefndir gwahanol iawn ym Malawi. Pan darodd y sychder Malawi ac ni allai ei rieni fforddio anfon William i'r ysgol mwyach ac roedd llawer o'r pentrefwyr yn brwydro i oroesi, ni ildiodd William, 14 oed.

Benthycodd lyfr o'r llyfrgell a oedd yn dangos delweddau o felinau gwynt. Gan ddefnyddio'r llyfr yn unig a'r hyn y gallai ddod o hyd iddo mewn tomen sgrap leol, dyluniodd ac adeiladodd William dyrbin gwynt a oedd yn gallu creu trydan.

I ddechrau defnyddiwyd y trydan i wefru batris radio a ffonau symudol, ond aeth ymlaen wedyn i ddylunio system i echdynnu a phwmpio dŵr i ddyfrhau'r cnydau a chynnal ei bentref i oroesi trwy'r sychder.

Roedd stori William mor ysbrydoledig fel ei bod bellach wedi'i throï'n ffilm 'The Boy Who Harnessed the Wind'. Gallwch wylïo'r stori yma, [Moving Windmills: The William Kamkwamba story \(youtube.com\)](#).

## Gweithgaredd


---

Weithiau daw'r dyfeisiadau gorau gan bobl ifanc sy'n wych am feddwl yn greadigol ac nad ydynt yn dilyn yr holl reolau y mae cymdeithas weithiau'n eu pennu. Yn 2052 gobeithio y byddwn yn byw mewn byd gydag ychydig iawn o blastig cefnfor ac afon a lle mae popeth yn cael ei aildefnyddio a'i ailddyfeisio'n rhywbeth newydd, nid yn cael ei daflu.

- [Gwyliwch y fideo hwn \(youtube.com\)](#) i ddarganfod mwy am ddyfais Boyan Slat a sut mae'n atal sbwriel rhag cyrraedd y cefnforoedd.
- Nawr gwyliwch stori William Kamkwamba, a wynebodd her enfawr o ddim ysgol, dim arian, dim glaw ac felly dim bwyd. Newidiodd ei ddyfais fywydau'r bobl yn ei gymuned [Blowing in the Wind \(youtube.com\)](#)

Mae Boyan yn sôn sut ei fod yn hollbwysig cynnwys y gymuned leol yn y prosiect a'u cynnwys yn y gwaith o gasglu'r gwastraff a'i droi'n rhywbeth defnyddiol. Ar gyfer y rhaglen glanhau cefnforoedd, trowyd y gwastraff plastig yn sbectol haul a werthwyd wedyn i godi arian i barhau i lanhau'r cefnforoedd!

Mae William hefyd yn gosod ei gymuned wrth galon ei ddyfais a sylweddolodd y gallai, trwy ddatrys problem i'w bentref cyfan, greu lle gwell i'w gymuned gyfan ffynnu.



### Yr her

- Meddyliwch am her amgylcheddol yn eich cymuned yn 2022 a cheisiwch greu dyfais a fydd yn helpu i ddatrys y mater. Gallech chi feddwl am:
  - Sut mae pobl yn teithio o amgylch eich cymuned ac i'r ysgol
  - Beth sy'n digwydd pan fydd hi'n bwrw glaw yn drwm; a oes llifogydd yn digwydd ar hyn o bryd?
  - Ydy sbwriel yn broblem?
  - Sut mae ynni'n cael ei wneud? A allwch chi wneud rhywbeth gan ddefnyddio llai neu ddim ynni?
  - Sut allech chi wneud ailddefnyddio neu ailgylchu yn haws?
- Pan fyddwch wedi meddwl am ddyfais, meddyliwch sut y gallech godi'r arian neu'r adnoddau (efallai nad oes angen arian arnoch) i'w greu.
- Cofiwch rannu eich dyluniadau gyda'ch dosbarth, ysgol, cymuned a gyda ni. Efallai mai'ch un chi fydd y syniad sy'n datrys her fyd-eang!

# Myfyrio

---

Rydym wedi edrych ar ddau berson ifanc a nododd broblem a phenderfynu eu bod am greu ateb. Er gwaethaf sawl anhawster, dangosodd y ddau benderfyniad anhygoel wrth droi eu gweledigaeth yn realiti.

Wrth feddwl am hyn, a ydych chi'n meddwl bod digon o wrando ar syniadau a lleisiau pobl ifanc yn ein cymdeithas bresennol?

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

---

### Dibenion

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol

### MDPh a datganiadau Y Dyniaethau

#### Beth sy'n Bwysig

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredu dynol.

#### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mae meddwl am ddyluniadau a'u creu yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- Mae grymoedd ac ynni yn darparu sylfaen ar gyfer deall ein bydysawd

## Nodau Byd-eang

---



Nod 7: Ynni Fforddiadwy a Glân

Nod 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy



Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol

Nod 14: Bywyd islaw'r Dŵr

# GALWAD

**UNBOXED**

CREATIVITY IN THE UK



**Cymru Greadigol**  
**Creative Wales**

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB

33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767

[keepwalestidy.cymru](http://keepwalestidy.cymru)

[info@keepwalestidy.cymru](mailto:info@keepwalestidy.cymru)



**Eco-Schools**



**Eco-Sgolion**

